

9

11:00 - 17:00

Gŵyl Gymraeg / Welsh Language

**NEUADD GEMAU FIDEO
CHWARAEON
TIPI GREFFT PLANT
STONDINAU
BWYD A DIOD
ARDAL TRAETH A PHICNIC
A MWY**

**VIDEO GAMES HALL
SPORTS
CHILDREN'S CRAFT TIPI
STALLS
FOOD AND DRINK
BEACH AND PICNIC AREA
AND MORE**



 mentercaerffili.cymru

Castell Caerffili Caerphilly Castle

DIWRNOD AM DDIM I'R TEULU! FREE DAY OUT FOR THE FAMILY!

Dawnsio Gwerin -
Folk Dancing
Martyn Geraint
Allan yn y Fan
Perfformiadau Cymunedol -
Community Performances

2:00pm	Y Sybs
2:45pm	Ragsy
3:30pm	Nantgarw
4:00pm	Mabli Tudur
4:30pm	John Nicholas



MENTRAAL

PWYLLGOR A SWYDDOGION



Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebion: Huw Rowlands, Menter Iaith

Gwefan: menter.caerffili.cymru/



Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83

DEDDF NEWYDD PREIFATRIFYDD—DARLLENWCH !!!

Os ydych yn darllen hwn, gall hyn olygu fod eich data personol yn cael ei ddal gennym. Fel y gwyddoch, mae deddfau diogelu data yn newid y mis hwn, ac felly mae gennym yn nawr Rybuddion Preifatrwydd mewn lle sydd yn egluro wrthych sut y gallwn brosesu eich data personol, fel cwsmeriaid, neu gleientiaid inni, ac ar ba sail cyfreithiol yr ydym yn gallu gwneud hynny, a sut yr ydym yn cadw eich data personol yn saff.

Os hoffech dderbyn copi o'r Rhybudd
gallwch wneud hynny drwy ymweld â Gwefan y



Preifatrwydd,
papur: menter

Oedfaon Capeli Cymraeg Mis Mehefin

Bedyddwyr Tonyfelin

3ydd 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins
10fed 10.30 a 6.00 : Sul o Fawl
17eg 10.30 a 6.00 : Yn Bethel
24ain 10.30 a 6.00 : Mr Mansel Jones

Penuel, Rhymni

Parch Tudor Jones
Rev Richard Grey
Rhydd
Rhydd

Annibynwyr, Bethel

3ydd 10.30 : Alun Johnson
10fed 10.30 a 6.00 : Sul o Fawl 10.30 Tonyfelin 6. Bethel
17eg 10.30 (Cymundeb) 6.00 : Parch R. Owen Griffiths
24ain 10.30 a 6.00 : Yn Nhonyfelin

Capel y Groeswen

3:00 y.p
10fed o Fehefin
Rev Alan Tudor



Athrawes Wych

Addysgu'r plant lleiaf, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, yw arbenigedd Carol. Yn enedigol o ardal Aberystwyth, wedi pasio cwrs Astudiaethau Plentynod Cynnar enillodd radd Y Blynnyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol Manceinion. Flynyddoedd wedyn teimlodd werth yr astudiaethau hyn wrth iddi allu gwerthuso effaith datblygiadau ac ymchwil ar sut mae plant yn dysgu. Yna aeth i goleg UWIC yng Nghaerdydd i ennill cymhwyster TAC i fod yn athrawes. Yn dilyn cyfnod byr yn Ysgol Treganna, Caerdydd, denwyd hi dros y mynydd atom ni yma yng Nghaerffili.

Fe'i gwahoddwyd gan yr awdurdod addysg i dreulio blwyddyn yn lansio'r Cyfnod Sylfaen. Ac aeth ymlaen i ymweld ag ysgolion eraill yn yr ardal i gynnig arweiniad yn ogystal â rhannu syniadau ar sut y gellir codi safonau a gwella cyraeddiadau. Dewiswyd hi i fynychu cwrs *Excellence in Teaching* a fu'n gyfle i astudio ymchwil mewn addysg ac i fyfrio ar agweddau o'i gyrfa. Mae ei phrofiadau yn sicrhod fod wedi ei galluogi i ymdopi ag argymhellion Donaldson wrth drafod myfrio, hunan asesiad a heriau mewn addysg.

Mae'r ysgol bellach yn Ysgol Hwb ar gyfer Llythrennedd sy'n golygu rhoi o'i hamser i helpu ysgolion eraill. Yn bell o fod yn tarfu ar ei gwaith fel athrawes ddosbarth, mae'n teimlo fod yr amser mae'n ei wario mewn ysgolion eraill a'r amser y mae'n ei roi i groesawu athrawon i Ysgol Gymraeg Caerffili, mewn gwirionedd yn cyfoethogi ei haddysgu o ddydd i ddydd.

Nid rhywbeth newydd i'r ysgol yw gweld aelod o'r staff yn derbyn enwebiad fel hyn. Rhai blynnyddoedd yn ôl enwebwyd Mrs Karen Griffiths ar gyfer dyfarniad "Athrawes y Flwyddyn" a Mrs Emma Powell am ddyfarniad tebyg fel cynorthwywraig o allu eithriadol.

Daeth Carol Hesden yn ail cenedlaethol wedi iddi gyrraedd rownd derfynol "Athrawes y Flwyddyn" dan gynllun a drefnir gan Ddyfarniadau Addysgwyr Proffesiynol Cymru, cynllun sydd bellach yn ei ail flwyddyn. Crëwyd y cynllun ar gyfer dathlu ymroddiad, sêl a gwaith caled gweithwyr proffesiynol ar hyd a lled Cymru. Derbynnir enwebiadau gan rieni, myfyrwyr, cydweithwyr a chyflogwyr. Cyhoeddwyd yr enillwyr mewn seremoni arbennig yng Nghastell Hensol ddydd Sul, Mai'r 12fed.

Dywedir i'w henw gael ei gynnig am ei bod yn fodel gwych i'w disgyblion gan greu amgylchedd ddiogel iddynt gael dysgu ynddi ac ymwybyddiaeth o'r hyn y gallant gyflawni.

Ymunodd Carol â staff Ysgol Gymraeg Caerffili yn 2002 ac ymhen bach o amser fe'i dyrchafwyd yn ddirprwy bennaeth yn 2008. Yn aml gellir dod ar ei thraws yn parhau i weithio oriau lawer wedi i bawb arall fynd adref.

Dywedodd pennaeth yr ysgol, Mr Lynn Griffiths, "Mae effaith y gwaith y mae Miss Hesden wedi'i ddatblygu, a'r prosiectau y mae wedi'u harwain, wedi effeithio ar safonau drwy'r ysgol gyfan. Mae ganddi egni, mae ganddi amynedd ac mae ganddi dalent, ac rydw i'n falch iawn, fel pennaeth yr ysgol fod Miss Hesden yn derbyn cydnabyddiaeth am y gwaith ffantastig y mae hi'n ei wneud."

Terfysg a Thrais yn ein Cwm Ni

Dr Elin Jones

“Y swffragetiaid enillodd y bleidlais i fenywod, trwy eu hymgyrchu treisgar cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, a thrwy eu gwaith yn ystod y rhyfel ei hun”. Ydych chi’n cytuno gyda’r gosodiad hwn? Os ydych, hoffwn anghytuno gyda chi. Do, fe ymgyrchodd y swffragetiaid dros ryddfrenio menywod, gan ddefnyddio dulliau treisiol anghyfreithlon – a thrawiadol. Ond carfan fechan oeddynt – rhwng 2,000 i 5,000 o fenywod – ac er i’w gweithredoedd ennill sylw mawr i’r achos, dim ond am ryw 10 mlynedd y buont wrthi.

Dechreuodd ymgyrch cyfreithlon y swffragwyr ym 1866, ac erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd rhyw 40,000 yn perthyn i’w cymdeithasau. A thros yr hanner canrif buont wrthi’n ddiwyd: yn casglu deisebau, yn ysgrifennu erthyglau a llythyron i geisio cael perswâd ar genedlaethau o wleidyddion i newid y gyfundrefn etholaethol, yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a gorymdeithiau heddychlon, mawreddog. Ar Fehefin y10^{fed} fe fydd carfanau o bobl o bob cwr o Brydain yn cynnal gorymdaith i Lundain, i gofio am orymdaith heddwch y swffragwyr ym 1913. Erbyn hynny roedd y swffragwyr wedi ennill cryn gefnogaeth i achos rhyddfrenio menywod, a hynny trwy ddulliau hollol gyfansoddiadol.

Bwriad y swffragetiaid oedd ennill sylw i’r un achos, ond trwy dorri’r gyfraith a phrotestio’n gyhoeddus. Mae’n amlwg iddynt lwyddo, oherwydd canrif yn ddiweddarach, nhw sydd yn cael y sylw - a’r clod - o hyd. Er mor anghyfreithlon eu dulliau, roeddynt yn effeithiol dros ben. Ond credaf yn taw cyfiawnder eu hachos ynghyd â’u dulliau trawiadol sy’n esbonio pam y byddwn yn cofio’r swffragetiaid heddiw.

Roedd terfysgwyr eraill yn torri’r gyfraith yn yr un cyfnod, blynyddoedd cythryblus ddechrau’r ugeinfed ganrif. Ond sawl un ohonom sy’n cofio am derfysgoedd 1911 yn y fro hon? Tlodi a dyled oedd wrth wraidd y protestiadau hyn. Roedd y streic deng mis gan y glowyr wedi dod i ben yn chwerw. Ond nid perchnogion y glofeydd oedd ffocws dicter pobl ein cwm, fel a ddigwyddodd yn Nhonypandy yn yr un cyfnod, ond yn hytrach yr Iddewon oedd yn berchen siopau, yn enwedig y gwystlon (*pawnbrokers*) a’r landlordiaid a rentai tai i’r gweithwyr. Roeddynt wedi bod yn amyneddgar iawn yn ystod y streic ei hun, ond unwaith roedd y streic ar ben, roedd pethau wedi newid. Rhaid cofio hefyd am y rhagfarn yn erbyn yr Iddewon oedd yn amlwg iawn yn y cyfnod hwn, ac yn ddiweddarach.

Dechreuodd y terfysgoedd yn Nhredeg ar y 19^{eg} o Awst 1911, ac yn ystod yr wythnos ganlynol ymledasant i Lyn Ebwy, Rhymni, Caerffili a Bargod. Byddai trigolion yr ardal yn torri ffenestri siopau a thai Iddewon, a dwyn eu heiddo. Dyma *Kristallnacht* ein cymoedd. Er bod haneswyr heddiw yn dadlau dros union gymhelliad y terfysgwyr, does dim amheuaeth taw wrth-semitiaeth oedd un o’r ffactorau. Mae hanes Natsïaeth wedi dangos yn glir inni beth yw pendraw’r credoau hynny.

Nid yw ein hanes i gyd yn hardd, ac nid ‘gwlad y menig gwynion’ yw Cymru. Tybed sawl un o ddisgyblion ein hysgolion, sy’n gwybod cymaint am hanes Hitler, yn gwybod am yr wythnos erchyll hon ganrif yn ôl - yn ein cwm ni?



Posau'r Plant

gan Mary Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun am bicnic?



Fel mae'r tywydd yn gwella does dim syniad gwell na mynd am bicnic. Dyma syniadau i chi ddodi yn eich bag bwyd. Mae DEUDDEG o eiriau yma. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

AFAL	OREN	BRECHDAN
WYAU	CREISION	PASTAI
IOWGRT	DIOD	BANANA
TOMATO	CAWS	LETYS

Mae'r atebion ar waelod Colofn y Dysgwyr ar dudalen 17



GENEDIGAETH

Ddydd Llun, 30ain o Ebrill daeth Ffion Eiddwen Huws i'r byd yn pwyso 5pwys a 5 owns a rai munudau wedyn fe ddaeth ei chwaer Nia Mererid Huws yn pwyso 5pwys 4 owns. Mae mam a dad sef Geraint a Manon Huws yn methu credu eu lwc bod ganddyn nhw ddwy fach mor annwyl.

Mae Geraint yn athro Daearyddiaeth, Busnes a Heriau'r Fagloriaeth ym Mhlasmawr, Caerdydd. Cyfreithwraig yw Manon yn y Cynulliad. Hithau o Bentre'r Eglwys yn wreiddiol. Mae nhw'n byw yn Nhreganna ar hyn o bryd, ac wrth eu bodde gyda'r ddwy fach!

Mae 13 o wyrion gan Rhian Huws, Ffwrnes Blwm erbyn hyn!

64 MLYNEDD O WASANAETH

Tybed faint ohonoch chi, ddarllenwyr, sydd yn cofio 22 a 23 Medi, 1954? Mae'n eithaf sicr nad oedd nifer ohonom wedi ein geni hyd yn oed! Ond ar y dyddiadau yma 64 mlynedd yn ôl yr ordeiniwyd a sefydlwyd gŵr ifanc o Lannon, ger Llanelli, sef Milton George Jenkins, yn weinidog ar ei eglwys gyntaf ym Methel, Glyn Nedd. Prin y byddai unrhyw un yn y cyrddau hynny wedi dychmygu na fyddai'r llanc ifanc, a oedd yn cyflwyno ei fywyd i Grist, yn ymddeol tan Ebrill 2018! A chawsom ein hatgoffa gan y Parch. Judith Morris, ysgrifennydd cyffredinol UBC nad oes unrhyw weinidog bedyddiedig arall yng Nghymru heddiw wedi gweinidogaethu'n hirach na Milton.



Gareth Hughes, llywydd oedfa'r bore, Rita a Milton Jenkins

Ddydd Sul, 29^{ain} Ebrill eleni cynhaliwyd cyfarfodydd arbennig yn ei eglwys olaf, sef Tonyfelin, Caerffili, i roi mawl a diolch am ei wasanaeth dros y blynyddoedd i'r eglwysi y bu'n bugeilio ac i Undeb Bedyddwyr Cymru. Oedfa gartrefol i deulu Tonyfelin oedd yr oedfa foreuol – cyfle i ni fel aelodau fynegi ein diolchgarwch a thalu ein teyrngedau iddo. Talwyd teyrnged i Milton hefyd am ei waith arbennig gyda'r ysgolion cynradd Cymraeg lleol gan gyn-brifathro Ysgol Gymraeg Caerffili, Mr Ben Jones. Wrth ein hannerch, talodd Milton deyrnged i'w rieni ac i'w fam eglwys yn Hermon, Llanon. Y dylanwadau yma a'u cefnogaeth ddi-flino a wnaeth iddo sylweddoli'n ifanc iawn mai gweinidog yr efengyl fyddai ei alwedigaeth. Cafodd gefnogaeth pellach ym Methel, Glyn Nedd, a fu'n gymorth amhrisiadwy iddo fel gweinidog nerfus ifanc yn cychwyn ar ei yrfa.

A chafodd yr un cymorth ac anogaeth yn ei ofalaethau ym Maesteg, Aberteifi a Chaerffili gan fwynhau ei flynyddoedd yn fawr ym mhob un o'i bedair gofalaeth.

Trwy'r cyfan ni chollodd y cyffro na'r llawenydd ac ni fu yn edifar unwaith am fynd i'r weinidogaeth. Teg felly yw gofyn sut y llwyddodd i gadw'r brwdfrydedd at y gwaith yn fyw a sut y llwyddodd i ddyfalbarhau am gynifer o flynyddoedd. Cafwyd yr ateb mewn datganiad clir a chadarn ganddo yn ei anerchiad byr – 'ond safodd yr Arglwydd gyda mi' (2 Tim 4:17).

A chlr iawn oedd y neges mai Crist oedd yn ganolog i'w weinidogaeth ac mai ei ras ef oedd y gynhafiaeth gadarn i'r gwaith. Gorffennodd ei anerchiad gyda'r geiriau addas hyn o weddi Ignatius o Loyola am ymglyfwyno i Dduw – 'dysg ni, Arglwydd, i'th wasanaethu fel yr haeddi; i roi heb gyfrif y gost'.

Yn oedfa'r hwyr Y Parch. Denzil John oedd yn annerch a chymharodd weinidogaeth Milton i bont a gysylltai y gorffennol gyda'r dyfodol. Trosglwyddwyd yr efengyl iddo ef a'i gyfoedion gan y genhedlaeth a aeth o'i flaen ef, ac y mae ef dros y degawdau wedi'i throsglwyddo yn ddiogel i'r cenhedlaethau sy'n codi.



Rhai o deulu Milton a ymunodd â ni

Ac o'r bont, gallwn weld yn gyntaf ryfeddod Duw a'i fawredd. Yn ail, gwelwn yn glir ddoethineb Duw ac y mae rheidrwydd ar y pregethwr i ddysgu'r byd am y doethineb arbennig hwn. Ac yn olaf, o'r bont gwelir cyfoeth Duw, ac yn y cyfoeth hwn y mae modd mwynhau perthynas agos ag ef.

Yn y ddwy oedfa, pwysleisiwyd y rôl bwysig a chwaraewyd gan ei wraig, Rita. Yn wir, gweinidogaeth tîm a gafwyd yma. Drwy'r blynyddoedd bu hi'n gefn iddo, ac fe gyfrannodd lawer i'r gwaith gyda'r plant a'r ieuenctid o fewn yr eglwysi lle bu Milton yn weinidog. Mae llawer hyd heddiw yn cofio cymryd rhan yn y dramâu a'r pasiannau a gyfansoddodd hi. Addas felly oedd canu nifer fawr o'u hemynau hi yn y ddwy oedfa ac yn yr hwyr fe ganodd Côr Merched Tonyfelin un arall o'i hemynau hyfryd.

Yn y ddwy oedfa hefyd cafwyd cyfarchion lu gan gyfeillion a chyn-eglwysi Milton ynghyd â chyfarchion gan Gymanfa Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg a rhai o'r chwech o weinidogion a godwyd i'r weinidogaeth dan ofal tyner Milton.

Yn oedfa'r bore ymunwyd â ni gan griw o Fethel, Glyn Nedd ac yn yr hwyr gan griw o Fethania, Aberteifi; ac roedd eu presenoldeb yn dyst i wasanaeth Milton a Rita yn yr eglwysi hyn. Anrhegwyd y ddau gyda llun o Donyfelin.

Ond nid ydynt yn debygol o'n hanghofio gan eu bod am aros yn aelodau gyda ni yn Nhonyfelin, ac rwyn siwr y byddant yn cyfrannu eto at y gwaith o fewn i'r eglwys hon.

Yn y ddwy oedfa cyfeiriodd Milton at emyn poblogaidd a gyhoeddwyd ym mlwyddyn ei ordeinio, sef emyn Mario Lanza: *I'll walk with God from this day on, his helping hand I'll lean upon*. A dyma emyn sy'n crynhoi gweinidogaeth Milton – gwas ffyddlon a gerddodd gyda'i Argwydd o'r Cwm, i'r Maes a'r Aber a'r Gaer. "Y Cwm, y Maes a'r Aber" oedd testun anerchiad Milton fel Llywydd yr Undeb.

Dr Eirian Dafydd



Canolfan Siloh Ystrad Mynach



BEIBL BYW

Saib@Siloh – gyda'r Salmau

Cyfarfod defosiynol misol– croeso i bawb

10.30 – 11.30 ar fore Llun

4 Mehefin – Duw sy'n ein hamddiffyn (*Salm 121*)

2 Gorffennaf – Duw sy'n ein hachub (*Salm 40*)

6 Awst – Hiraeth am Dduw (*Salm 63*)

Astudiaeth

Llunïaeth

Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk / www.siloh.co.uk

“If you know it in Welsh, say it in Welsh”



A dyna gyngor sicr i ni a hynny o “enau plant bychain a’r rhai sy’n sugno”. Plant bychan Ysgol Rhiw Syr Dafydd, Cwm Derwen (Oakdale) yw’r “bychain” hyn. Plant nad ydynt yn mynychu Ysgol Gymraeg ond yn hyrwyddo’r iaith yn aelodau o “Criw Cymraeg” yr ysgol. A rhan o waith y criw yw sicrhau nad yw pobol o gwmpas yr ysgol yn defnyddio ymadrodd Saesneg os ydyn nhw’n debygol o wybod beth yw e yn y Gymraeg.

Roedd Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol yn awyddus i wahodd rhai sy’n ymwneud â’r iaith yn ein sir i ymweld ag ysgol ei blant, i ni gael blas ar yr hyn a wneir wrth ddysgu’r Gymraeg yn ail iaith. Felly, aeth Anwen, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a’r Gymraeg) Cyngor Caerffili; Morgan o Fenter Iaith Sir Caerffili a Ben “Cwmni” draw i Gwm Derwen i brofi’r brwdfrydedd a’r llwyddiant oedd yno wrth gyflwyno’r iaith.

Dan arweiniad yr athrawes frwdfrydig â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, Rhian Woolley, mae’r “Criw Cymraeg” yn bwyllgor o ryw ddwsin o blant, wedi’u hethol gan eu cyd ddisgyblion ac nid gan yr athrawon. Maen nhw’n cyfarfod bob wythnos ac mae i’r pwyllgor Gadeirydd (Jasmin) ac Ysgrifennydd (Theo) a chan bob un ddirprwy. Cymaint yw’r brwdfrydedd erbyn hyn hyd nes bo’r dirprwyon hyn methu aros i aelod fod yn absennol o’r ysgol i ohonyn nhw fedru cymryd ei le! Diddorol oedd cyfarfod aelod o’r Criw, Emily, nad yw’n siarad naill ai’r Gymraeg na’r Saesneg adref ond, yn hytrach, wedi’i magu i siarad iaith Hwngari.

Maen nhw wedi gosod targedau i’r ysgol wrth anelu am ddyfarniad “Cymraeg Campus”. A sawl targed mae galw arny’n nhw’u cyflawni? Wel 96. Ie, NAW DEG CHWE THARGED”

Er mwyn cyflawni’r nod mae ystod ddi-ben-draw o weithgareddau. Cyflwynir un gêm newydd bob hanner tymor fel bod y plant yn gallu chwarae ar y buarth yn y Gymraeg. Ceir Siart Iaith ym mhob dosbarth i nodi nifer y tocynnau iaith, y Cwponau Cymraeg, sy’n cael eu hennill bob wythnos. A beth am hyn? Mae cyfle i’r athrawon ennill tocynnau, hefyd!

Yn y gwasanaeth Cymraeg wythnosol, sy’n cael ei redeg gan y Criw, mae’r dosbarth sydd â’r nifer fwyaf o docynnau yn ennill a chael cadw Draig Goch fawr tan y gwasanaeth canlynol. Hefyd, yno y penderfynir pwy yw Cymro neu Gymraes yr wythnos.

Nodwedd hynod arall yw’r “Sgriblo Sydyn” sef tudalen fawr ar ddesg yn y coridor lle gall unrhyw un gyfrannu brawddeg neu ddwy wrth fynd heibio. Gwelwch o edrych ar y llun isod mor boblogaidd yw’r syniad hwn!



Er mwyn sicrhau safon ar gyfer y dyfarniadau mae aelodau’r Criw yn cynorthwyo a monitro defnydd y Gymraeg o gwmpas yr ysgol. Gwnânt lawer i helpu plant y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol Un. Hefyd, maen nhw’n gofalu am ddefnydd y Gymraeg mewn arwyddion, posteri ac ati.

Nid yn unig maen nhw’n targedu eu cyd-ddisgyblion a’u hathrawon ond, hefyd, y llywodraethwyr. Cynhaliwyd sesiwn o gyflwyno geiriau ac ymadroddion y gallai’r Llywodraethwyr ddefnyddio yn eu cyfarfodydd. Mae’r cadeirydd bellach yn defnyddio’r hyn o Gymraeg sydd ganddo wrth ei waith ar wefan y cyngor.




Y pwyllgor hefyd sydd yn rhedeg Eisteddfod flynyddol yr ysgol gan drefnu'r cystadlaethau, y beirniadu, cynhyrchu a dosbarthu'r tystysgrifau. A gwelwyd arddangosfa wych o'r cynnyrch. Mae hwn yn rhan o nifer o arddangosfeydd sy'n sicrhau naw Gymraeg o gwmpas yr adeiladau – adeilad modern hyfryd gydag ymestyniad diweddar ar gyfer y disgyblion Iau ers cyfuno ddeng mlynedd yn ôl. Mae yna faner Croeso yn ogystal â phosteri i annog pobol i siarad Cymraeg.

Mae technoleg yn chwarae rhan amlwg yn y gweithgareddau. Un engraifft o hyn yw cyflwyno Brawddeg yr Wythnos ar Twitter sydd yn galluogi rhieni i'w defnyddio. “@RSDC Cymraeg” yw'r dudalen Twitter. Bu yna adeg y hanes yr ysgol pan roedd rhai rhieni yn nerfus ynglyn â gwaith cartref yn y Gymraeg. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae nifer yn trydar yr athrawes gydag ambell neges fyr megis, “Diolch”. Ac mae galw mawr hefyd am gael Photobooth a gynhyrchir gan y plant i ddathlu gwahanol digwyddiadau megis Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi.

Erbyn diwedd ein hamser yno roedd y plant wedi penderfynu ymuno yn Ffiliffest eleni gan wahodd y Fenter i arwain nifer o weithgareddau yn yr ysgol. Maen nhw hefyd yn awyddus i dderbyn copi o fideo “Hapus” y Fenter. Mae uned Anwen wedi cytuno i helpu ble maen nhw'n gallu a rhoddwyd nifer o lyfrynau a bathodynau iddynt. Ac mae'r ysgol bellach i dderbyn tri chopi o “Cwmni” bob mis. Pawb felly yn blasu llwyddiant!!!



Pawb â'i Farn



Does fawr ddim yn tarfu ar lif a brwdfrydedd y trafod a'r dadlau yng nghyfarfodydd Clwb Darllen Cwmni, ond am un peth – pawb yn cytuno!

Dyw hynny ddim yn digwydd yn aml ond wrth drafod, yn ein cyfarfod fis Mai, “Ddyddiadur Dewi Llwyd” prin y gallai neb ddod o hyd i feirniadaeth o'r gyfrol hwyliog hon. Yr agosaf ddaethpwyd at anghytuno oedd y ffaith fod rhai aelodau am ddarllen y dyddiadur bob yn ail â llyfr arall; roedd eraill yn hapus o'i darllen o glawr i glawr heb dorri ar draws y llif.

Roedd llawer i ddysgu am gefndir a magwraeth y cyflwynydd poblogaidd. Dysgwyd ei fod dipyn o bêl droediwr a chwaraewr rygbi yn ystod ei ddyddiau ysgol. Wedi astudio Ffrangeg yn yr ysgol a'r coleg daeth yn hynod rugl yn yr iaith honno.

Elfen ddiddorol o'r llyfr oedd darllen cymaint oedd Dewi wedi teithio wrth gywain deunydd ar gyfer ei raglenni. Bu drwy'r India ar drywydd y Dalai Lama, a bu sylwebu ar etholiadau yn Ffrainc a'r Unol Daleithiau

Ond, yn bennaf, cafwyd cadarnhad o ba mor drylwyr yw ei baratoadau cyn mentro o flaen y microffon neu'r camera. Mae ei gyflwyniadau mor esmwyth ac ymddangosol ddiymdrech ond gwelir mai rhith yw hyn gan fod ei brofiad eang wedi'i ddysgu i gymryd dim byd yn ganiataol – rhaid paratoi yn llwyr gan fod yr annisgwyl mor aml yn gallu tarfu ar rediad rhaglen.

Darllenwch hi, mae'n werth yr ychydig oriau a gymer. Yna, cydiwch mewn copi o Syllu ar Walia' – Ysgrifau am ei bywyd yng Nghymru a thu hwnt gan Ffion Dafis. Yna, dewch i ymuno â ni yn llyfrgell newydd Caerffili brynhawn Llun y 4ydd o Fehefin am 2:00 i drafod y gyfrol.

TISIAN TRYCHINEBUS DEWI

Tisian Trychinebus Dewi? Pwy yw Dewi tybed? Pam mae'n tisian? A pham oedd deunaw o blant Ysgol y Castell yn dangos ffilm wedi'i hanimeiddio yn y Tate Modern yn Llundain yn ddiweddar? Yng ngeiriau doeth Dylan Thomas - beth am ddechrau yn y dechreuad?



Cynllun yw Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau sy'n unigryw i Gymru. Ei nod yw datblygu creadigrwydd disgyblion Cymru ac mae modd i ysgolion ymgeisio am grant i wneud hyn. Roedd Ysgol y Castell eisiau defnyddio'r grant i feithrin sgiliau Cymraeg / Cerddoriaeth / Celf grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 5. Wedi i fi lenwi ffurflen gais a'i dychwelyd at y disgyblion a chael cyfweiliad ganddynt, bues i ac Aron Evans yn ddigon ffodus i gael ein dewis i fod yn rhan o'r prosiect.



Roedd y plant am ysgrifennu stori ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen a chreu ffilm wedi'i hanimeiddio o'r stori. Penderfynwyd y byddai'n dda i ysgrifennu'r stori mewn cwpledi, gyda chân ar ddechrau a diwedd y ffilm – a chân yn y canol hefyd! Roedd y plant wrth eu boddau yn gwneud gweithgareddau odli ymarferol yn y neuadd – fel chwarae tenis odli gyda ffrind, creu lluniau llonydd o'r stori, a chwarae gemau drama amrywiol i feithrin hunan hyder a sgiliau llafar.

Mae Sbarc a Seren yn gymeriadau sydd wedi cydio yn nychymyg plant yr ardal, felly yn fuan penderfynwyd y byddai'n dda cynnwys y ddau gymeriad yn y stori.

Mae lleoliad amlwg Ysgol y Castell yn cynnig ei hun i stori - mae'r olygfa o ystafell Mrs Nuttall yn ddigon i sbarduno unrhyw un! Felly penderfynwyd ar helpa wyau Pasg yn y castell fel dechreuad diddorol. Ar ôl mapio'r plot, gweithiodd y plant yn galed gan droi'r plot yn gwpledi. Roedd y plant yn dwlu cynnwys staff yr ysgol yn y stori - a dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn ogystal

Wedi creu'r cwpledi, rhoddwyd y rhain i gyd ar bapur A4 ar lawr y neuadd gyda'r plant yn creu cerddoriaeth i gyd-fynd gyda phob cwpled. Roedd y plant oedd yn chwarae offeryn gartref wedi dod a'u hofferynnau hefyd - cafwyd "Smoke on the Water" ar y gitâr trydan yn gefndir i un cwpled (pan aeth Mrs Nuttall lan i'r gofod!). Roedd telyn, ffidl, piano ac amrywiaeth offerynnau taro yn gefndir i bob cwpled.

Wedi recordio'r cwpledi gweithiodd y plant yn galed, galed gydag Aron gan droi'r cwpledi yn ffilm wedi'i hanimeiddio. Roedd angen tynnu nifer o luniau o'r cymeriadau a symud nhw yn ofalus gan dynnu llun bob tro. Erbyn diwedd y cyfnod yma roedd dosbarth Mrs Griffiths yn debyg i stiwdio Disney, gyda phedwar camera yn cael eu defnyddio ar yr un pryd i orffen y gwaith.




TISI AN TRYCHINEBUSDEW II

Cafwyd noson hyfryd yn Ysgol y Castell ar Ebrill

20fed i lansio'r
ffilm. Daeth
nifer o rieni,
llywodraethwyr
a chyfeillion y
disgyblion i
weld beth
oeddent wedi
bod yn
gwneud.
Dangoswyd y



ffilm, cafwyd darlenniad o'r stori, a soniwyd am y trip
i Oriel enwog y Tate Modern oedd ar y dydd
Mercher canlynol. Gyda charped coch (diolch Ysgol
Ifor Bach!), a'r disgyblion yn eu gwisgoedd gorau,
roedd y noson yn debyg i'r Oscars!



A sôn am yr
Oscars - mae
angen diolch.
Diolch i Mr
Daniel Davies
am lenwi'r
ffurflen gais
ac i Mrs
Lowri
Griffiths am
drefnu'r holl
brosiect.
Diolch i
Catrin Jones,
asiant

creadigol yr ysgol. Diolch i Mr Aron Evans am ei
sgiliau celf anhygoel. Diolch i Mrs Nuttall am y croeso
bendigedig ac i Mrs Karen Evans am ei sgiliau celf yn
y Tate.

Ond yn bennaf oll, diolch yn fawr i blant Blwyddyn 5
Ysgol y Castell am eu gwaith, eu cyfeillgarwch, eu
Cymreictod, eu cwrteisi... ac yn sicr am eu
creadigrwydd!

*Pan yn y Tate fe gyfansoddodd y disgyblion
dair cân a chreu collage o Gastell Caerffili
gan ddefnyddio lluniau o'r oriel fel
sbardun.*

Caneuon o'r Tate

Dawnswraig bale Degas
Yn aros nawr i ddawnsio
Patrymau celf ddiddorol
Yn symud ac yn llifo.
'Dyn ni'n falch i ddod i'r Tate
i'r Tate yn Llundain!

Robotiaid 3D
Radios mewn tŵr
Ceffyl deuliw
Traed yn creu stwr
Celf o bob math
A chwerthin mas!

Dewch Tŵr o radios
Yn gweiddi mas
Yr afon lyfn
Yn llifo tu fas
Pablo Picasso
A'i luniau llawn cariad
Ymwelwyr â'r Tate
Yn siarad a siarad.
Dewch i'r Tate
Mae'r gelf yn grêt!



Canadram: Clwb Perfformio Cynradd Menter Caerffili



Ydych chi'n hoffi canu, actio, dawnsio? Ydych chi eisiau cyfle i greu ffrindiau newydd o ysgolion gwahanol? Beth am ymuno ym mis Medi?

Canadram @canadram Dilynwch ni ar Facebook
Y Memo Trecelyn (Newbridge)

Nos Iau 5.00 p.m. – 6.30 y.h. £3 y tro.

Dyma sylwadau rhai o'r aelodau.

Rydw i'n hoffi Canadram. Rwyf ti'n gwneud y gân actol, chwerthin, creu ffrindiau newydd, gwneud pethau rwyf ti moyn a rhoi syniadau. Dewch i ymuno gyda ni yn Canadram! **Olivia**

Rydw i'n hoffi bod pawb yn garedig. Rydw i'n hoffi ein bod yn gallu bod ein hunain. **Layla**
Canadram yw'r gorau. Rydyn ni'n canu. Rydw i'n hoffi chwarae gemau fel Sblat. Rydw i'n hoffi creu ffrindiau newydd a chael hwyl. **Joshua**

Rydw i'n dwlu ar Canadram achos rydw i'n gallu perfformio o flaen fy ffrindiau newydd. Mae yna lawer o gemau gwahanol. Mae pawb yn hapus a charedig. Mae pawb yn gallu creu jociâu doniol iawn – felly dewch! **Seren**

Yn fy marn i rydw i'n hoffi actio a chanu. Felly dewch i Canadram! **Daniel**
Creu ffrindiau newydd. Gemau fel Sblat, Ti i fi, llofrudd, canu, actio, chwerthin.
Dewch nawr i Canadram! **Mia**

Rydw i'n hoffi'r gemau yn Canadram achos maen nhw'n hwyl. **Cerys**
Rydw i'n hoffi creu ffrindiau newydd o ysgolion eraill. Hefyd rydw i'n hoffi gwneud rhywbeth tu allan i'r ysgol. Yn ogystal, rydyn ni yn dawnsio, canu, action a dyfeisio pethau ar ein pennau ein hunain. Dewch i Canadram i gael hwyl, cwrdd a phobl newydd, chwarae gemau a mynd i'r Eisteddfod. **Elise**



Ras yr Iaith 2018 yn dod i Gaerffili

Mae Ras yr Iaith, yr unig ras drwy'r byd sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn ehangu ac yn gorffen yn nhref Caerffili.



Eleni mi fydd y Ras, y trydydd ers ei sefydlu, yn mynd i ardaloedd newydd o Gymru gan ymweld am y tro cyntaf â'r gogledd Ddwyrain a'r de Ddwyrain. Mi fydd y Ras yn **cychwyn yn Wrecsam ar Orffennaf y 4ydd a gorffen yng Nghaerffili ar Orffennaf y 6ed** gan gynnig tridiau llawn o rhedeg, sŵn, egni a mwynhâd tra'n dathlu'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru yn cynnwys Llanrwst, Bangor, Porthaethwy, Machynlleth, Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Hwlfordd, Caerfyrddin, Llanelli, Rhydaman, Ystradgynlais, Clydach, Pontardawe a Porthcawl.

Mae mudiadau amrywiol ar draws Cymru hefyd yn elwa o'r Ras gan y bydd y nawdd a dderbynnir ar gyfer ei gynnal yn cael ei ddosbarthu ar ffurf grantiau. Rhannwyd yr arian a godwyd gan y Ras ddiwethaf a gynhaliwyd yn 2016, rhwng tua pedwar deg pump o fudiadau Cymraeg ar draws yr ardaloedd yr ymwelwyd â hwy.

Trefnir y Ras gan Mentrau Iaith Cymru a rheolir cymal Caerffili gan Fenter Iaith Sir Caerffili. Dywed Lowri Jones, Prif Swyddog Menter Caerffili:

"Rydym yn hapus iawn i groesawu Ras yr Iaith i Sir Caerffili er mwyn gwasgaru neges y Ras i lefydd newydd eleni. Yn 2016 fe godwyd dros £42,000 mewn grantiau er mwyn i fudiadau hyrwyddo'r Gymraeg yn eu hardaloedd. Fel sefydliad sy'n bodoli er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws cymunedau Sir Caerffili mae'n bleser gweld y ras yn tyfu pob tro ac yn gallu gwneud gwahaniaeth dros Gymru."

Mae croeso mawr i bawb gymryd rhan yn Ras yr Iaith, yn grwpiau ffrindiau, ysgolion, teuluoedd, mudiadau neu fusnesau a gellir cymryd rhan yn y Ras drwy redeg neu gefnogi ar ochr yr heol, drwy stiwardio, neu drwy noddï cymal o'r Ras. Cynhelir cymal Caerffili o'r ras ynghyd ag adloniant a gweithgareddau rhwng 4:30yp-7:00yh. Fe fydd y ras ei hun yn digwydd o amgylch cyrion Castell Caerffili a chaeau chwarae Owain Glyndwr gyda dathliadau i orffen Ras yr Iaith 2018 o fewn ac o amgylch Canolfan Twristiaeth Caerffili.

Am ragor o wybodaeth ewch i

www.rasyriaith.cymru/

www.mentercaerffili.cymru ac er mwyn cofrestru i gymryd rhan, cysylltwch â Menter Caerffili ar 01443 820913



Ysgol Haf Welsh Summer School

Mae'r Ysgol Haf yn cynnig 30 awr o wersi dros bum diwrnod. Dydd Llun i ddydd Gwener, 9-5yp. Mae dosbarth ar gyfer pob lefel, o ddechreuwy'r pur hyd at lefel Hyfedredd. Mae rhywbeth i bawb!

Mae'n gyfle gwych i chi adolygu ac ymarfer beth dych chi wedi'i ddysgu'n barod, mewn awyrgylch cyfeillgar a hwylus.

Heb fynychu Ysgol Haf o'r blaen? Peidiwch â phoeni, bydd ein tîm o diwtoriaid profiadol ar gael i'ch croesawu chi wrth i chi gyrraedd.

23-27.07.18


Campws Pont-y-pŵl
Coleg Gwent
NP4 5YE

9-5yp
Dydd Llun - Dydd Gwener

I archebu lle /
To secure your place go to
dysgucymraeg.cymru/gwent

Cofio Gwyn Griffiths

Collodd Cymru a'r ardal hon gymwynaswr o fri pan fu farw'r cyfaill Gwyn Griffiths yn 77 mlwydd oed ddiwedd mis Ebrill. Yn enedigol o ardal Cors Caron, Tregaron derbyniodd hyfforddiant i fod yn athro yn, yr hyn a alwyd bryd hynny, yn Goleg Hyfforddi Caerdydd.



Ond byr fu ei arhosiad ym myd addysg gan iddo yn fuan ymgymryd â swydd yn drefnydd yr Urdd yn Sir Benfro. Yna bu'n olygydd cylchgronau'r Urdd ac yn gohebu i'r Cymro. Rhain oedd ei gamau cyntaf tuag at ei briod waith o fod yn newyddiadurwr. Ac o ddod yn ddyn papur newydd cafodd swyddi

gyda'r BBC yn bennaeth y wasg a gweithiodd ar y wefan newyddion yno. O'r fan hyn datblygodd i fod yn awdur cynhyrchol. Mae ei hunangofiant yn 2015 "Ar Drywydd Stori - Atgofion newyddiadurwr o Geredigion" yn adrodd hanes ei yrfa yn ei ddull ddihafal ef.

Bu Gwyn yn ymwelydd cyson ag ardal "Cwmni". Bu yma yn annerch yn ddifyr iawn gymdeithasau a chlybiau. Roedd ganddo nifer o bynciau y gallai ymdrin â nhw. Roedd yn awdurdod ar waith a bywyd Evan a James James ac ar hanes ein hanthem genedlaethol. Cyhoeddodd gyfrol ddwyieithog "Cerddi Evan James, Awdur Hen Wlad Fy Nhadau" a "Gwlad fy Nhadau – Ieuan, Iago, eu Hoes a'u Hamserau".

Bu ganddo gysylltiadau â Llydaw dros nifer o flynyddoedd gan adnabod sawl Sioni Winwns. Datblygodd ei afael ar Ffrangeg a Llydaweg wrth fynd ar drywydd y gwerthwyr winwns. Mae ei ei lyfr "Sioni Winwns" yn y gyfres Llyfrau Llafar

Gwlad yn adrodd llawer o hanesion difyr. Yn 2006 cyhoeddodd flodeugerdd o lenyddiaeth Llydaw sef, *The Turn of the Ermine*.

Ail ymweld â bro ei febyd wnaeth ar gyfer llyfr a gyhoeddwyd yn 2012, oherwydd roedd yn hanu o'r un ardal â Henry Richard, yr Apostol Heddwch. Daeth ei gyfrol i olau dydd yn y ddwy iaith dan y teitl *Henry Richard: Apostle of Peace and Welsh Patriot*. A darllenwn yn Golwg, "Ar achlysur ei gyhoeddi yn Nhŷ'r Cyffredin bu sawl gwleidydd yn annerch ar lan bedd yr arwr a'r heddychwyr ym mynwent Hackney, gan gynnwys yr A.S. lleol Diane Abbott..... Dechreuodd pawb wedyn ganu Calon Lân mewn harmoni. Roedd yn ddigwyddiad hynod deimladwy"

Cydweithiodd gyda Chwmni Cwm Ni, aelodau o Gôr Cwm Ni a Dawnsywyr Nantgarw ynghyd â Dafydd Idris, Llinos Swain a'r delynores Eleri Llwyd Dafydd ar "Pastai'r Bont". Cyflwyniad oedd hwn i gofio dau gan mlynedd geni Evan James yn 2009. Llwyfannwyd y noson am y tro cyntaf yng Nghlwb Rygbi Caerffili sydd ond rhyw ddau gan llath o'r man y safai'r bwthyn lle ganed Evan James yn nhalcen Neuadd y Glowyr. Cynhaliwyd perfformiad arall wedyn yn yr Amgueddfa yn ymyl pont enwog William Edwards ym Mhontypridd.

Wedi difyrru grŵp "Hanes Cwm Ni" mis Chwefror gyda'i hanesion am Sioni Winwns roedd wedi addo dod atom eto i drafod ei lyfr diweddaraf, a ysgrifennwyd ar y cyd â Meic Stephens, *The Old Red Tongue - An Anthology of Welsh Literature*. Yn wir, methodd ei weddw, Gwen, ddod atom ym mis Mai oherwydd salwch a marwolaeth ei gŵr. Mae hi'n weithgar yng nghrochendy Nantgarw ac mae'r grŵp yn gobeithio y gellir trefnu ymweliad yno eto yn y dyfodol.

Byd Bwyd Merched y Wawr

Ie, roedd Merched y Wawr Cwm Rhymni yn dal ati i feddwl am eu boliau ym mis Mai! Wedi gwledda ym mis Ebrill, cawsom gwmni'r awdur Lowri Haf Cooke i'n difyrru ar Fai'r 16eg. Thema addas iawn oedd i'r noson, sef 'Byd Bwyd'. Mae Lowri'n adnabyddus am ei gwaith yn adolygu tai bwyta, ac rwy'n siŵr bod ei llyfr hyfryd *Caffis Cymru* gan lawer o ddarllenwyr *CwmNi*.



Mae'r llyfr yn hyfryd am sawl rheswm: mae'n dathlu caffis bendigedig ac amrywiol Cymru, o'r traddodiadol, fel Glanmor yng Nghaerffili a Sidoli ym Mhorthcawl, i'r newydd a gwahanol eu naws, fel Caffi Bodlon yng Nghaerdydd a'r Plug yn Ninas Powys. Ond mae diwyg y llyfr yn hyfryd hefyd, ac esboniodd Lowri i ni mor bwysig yw'r diwyg, gan gyfeirio at lyfr arall o'i heiddo - *Canllaw Bach Caerdydd*, sydd hefyd yn llawn lluniau lliw trawiadol a deniadol.

Mae'r ddau lyfr hwnnw allan o brint bellach, er y cewch ddarllen amdany'n nhw ar y we. Soniodd Lowri am y llyfr nesaf sydd ar y gweill ganddi - *Bwyta Cymru*. Gofalwch gael copi o hwnnw mewn da bryd, felly!

Ond mae llawer mwy i hanes Lowri na byd bwyd yn unig. Amlinellodd i ni ei magwraeth yn ninas Caerdydd ('Merch y Ddinas' yw enw ei blog), ei haddysg ym mhrifysgol Aberystwyth, a'i gwaith gyda'r BBC, a arweiniodd at ei gyrfa bresennol fel adolygydd annibynnol. Eglurodd i ni sut y datblygodd y grefft o adolygu, gan roi cyfle i ni hefyd adolygu ... un sgwaryn o siocled! Dyma ni yn mwynhau'r siocled, ac yn trafod ei flas, y teimlad o'i gnoi neu ei sugno, yr atgofion amrywiol a gyffrowyd ynom ganddo. Dangosodd Lowri i ni

sut y gallem ninnau ddatblygu'r sgiliau gwerthuso hyn er ymateb yn greadigol i brofiadau amrywiol bywyd.

Fe adolygiff Lowri rywbeth – gwesty, llyfr, pryd o fwyd, dinas, ffilm - a rhoddodd flas i ni o amrywiaeth a her byd y person llawrydd. Mae'n cynnig am gomisiynau, ac yn barod i roi prawf ar unrhywbeth sy'n apelio. O ganlyniad, mae'n teithio'r byd, yn cyfrannu'n gyson i radio a theledu, yn ogystal â chyhoeddi ei blog– ac yn cynnal gweithdai creadigol i ddisgyblion ysgolion Cymru. Mae hefyd yn cefnogi ei phapur bro, *Y Dinesydd*, trwy gyfrannu'n gyson iddo.

Mae bywyd a chwmni Lowri'n ddifyr dros ben, ac o ganlyniad aeth y cloc yn drech na ni'r noson honno. Rhaid oedd i ni redeg i ffwrdd o Ysgol Penalltau, fel criw cyfan o Sinderelas aeddfed iawn! O ganlyniad, ni chawsom gyfle i drafod rhaglen y gangen ar gyfer y flwyddyn nesaf, na hyd yn oed manylion ein cyfarfod fis Mehefin, pan fyddwn yn ymweld â Chwrt Insole yn Llandaf. Ond yno y byddwn i'n cwrdd ar Fehefin 21, a chawn ein tywys o gwmpas yr hen blasdy a'i erddi ar eu newydd wedd, a hynny gan rywun sy'n siarad Cymraeg. Ac fe fyddwn yn cael pryd o fwyd gyda'n gilydd - wrth gwrs!

Bydd aelodau'r gangen yn cael y wybodaeth berthnasol trwy eu swyddogion, ond os hoffai rai o ddarllenwyr *CwmNi* wybod mwy, mae croeso i chi gysylltu gydag Elin Jones ar elinphillips3@btinternet.com.

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili


2:00 o'r gloch

Mehefin 4	Syllu ar Walia' Ffion Dafis
Gorffennaf 2	Yr Eryr Gareth Williams
Medi 3	Darllen ar y Traeth

penneyje961@gmail.com
Croeso Cynnes i Bawb

Colofn

Dafydd Islwyn



Mae'n rhaid i fi fynd i Morrison's. Pwy welaf heddiw i roi'r byd yn ei le? Mae arwydd ar werth yng ngardd 21 Upper Road North. Mae dant y llew yn codi ei ben wrth y giât. Ia, sut gwyddai'r hen drosoddwr hy bod Joe Gurney, y brodor o Wlad Pwyl wedi ein gadael? Does neb yn tacluso'r tir o gwmpas y Gofeb Rhyfel wrth Eglwys Santes Gwladus? Pwy ddaw yn lle Harry Andrews i gadw llygaid ar y lle ac ar y tir o gwmpas Cofeb Capel Gwladus ar Gomin Gelligaer?

Dydy'r car Iraj, y BMW, ddim wedi ei barcio o flaen Scissors. Gofalai ef yn gydwybodol am ei gwsmeriaid ac wrth ei fodd yn holi am eu hynt a'u helynt. Cymeriad a wnaeth i mi sylweddoli nad ydy cymwynasgarwch yn mesur a phwyso lliw na chred. Dydy hi ddim iws galw yng nghaffi New Continental i weld pa liw het mae'r dyn taclusaf a yfodd goffi yno yn ei gwisgo. Ar hyd ei oes faith bu Elwyn Davies, y cyn-ddyn signals gyda'r rheilffyrdd fel pin mewn papur.

Fydd Dave Ford ddim yn cynorthwyo ei ferch yn Occasions. Dydy hi ddim iws galw yno. Brodor o ardal Rotherham oedd wrth ei fodd yn mynychu sioeau hen fysus oedd Dave. Gan na fydd Allen Edwin Williams, Upper Wood Street yn Morrison's byddaf gartref chwarter awr yn gynharach nag arfer. Bu'r brodor o Faes y Cwmer, wedi iddo ymddeol o'i waith fel peiriannydd gyda BT, yn ddyn lolipop tadol i blant Ysgol Gynradd Gilfach, Vere Street. Ymfalchiai bod ei wreiddiau yn ardal Abermo er na ymwelodd â'r fro erioed.

Mae rhyw lonyddwch dieithr yn y llyfrgell. Dydy'r llyfrgellydd Stephen Kings ddim ar gael. Y brodor o Dre Harris a ddaeth i Fargoed o Ferthyr yn 1990 a bu yma tan yn ddiweddar. Y llyfrgellydd cydwybodol na thynnai un gronyn o sylw at ei hun. Fe wnâi ei waith heb ffws na ffwdan. Bu'n gefn mawr i adran Hanes Teuluoedd y llyfrgell gan fod yn barod ei gyngor a'i gymwynas i ymchwilyr pybyr. Pan oedd Yvonne Evans, Cwmni Teledu Tinopolis, yn ffilmio ar gyfer Heno rhyw fymryn o hanes Bargoed, cafodd ei phlesio'n fawr gan gefnogaeth Stephen. Daeth â nifer o fawr o hen luniau o Fargoed i'r bwrdd.

Yn yr hen lyfrgell ar y sgwâr y dechreuodd ei gysylltiad llyfrgellyddol â Bargoed - agorwyd hi

ddechrau saithdegau'r hen ganrif. Ynddi y dechreuodd Cylch Llenyddol Bro Elyrch gyfarfod a phan ddaeth Stephen Kings at wareiddiad Bargoed o Ferthyr bu'n gefnogol i'r gweithgareddau.

Cydweithiodd â Iorwerth Davies, Prif Lyfrgellydd y Sir a Barrie Tobin, y dirprwy lyfrgellydd i sefydlu y Ddarlith Llenyddol Flynnyddol. 'Run mor gefnogol yr oedd i'r darlithoedd Saesneg. Gweithiwr y tu ôl i'r llenni ydoedd ac o ganlyniad yn weithgar gydwytbodol. Chwalwyd yr hen lyfrgell a chafodd gartre dros dro yn neuadd Eglwys Santes Gwladus. Yno ni laesodd ddwylo, yr un oedd yr ymroddiad tawel i'w waith. Pan drawsnewidiwyd capel Hanbury, Bargoed, yn llyfrgell saith mlynedd yn ôl, doedd neb yn fwy abl na Stephen Kings i sefydlu'r llyfrgell newydd.

Ia, brodor o Dre Harris, ardal y clywais lawer sôn amdani pan yn blentyn, gan i nain ac Yncl Owen fyw yno am gyfnod. Soniodd wrthyf am ei gysylltiad â Thre Lewis, yn enwedig Field Street. Fel amryw o'r ardal lofaol, fe ysgydwyd ei deulu pan laddwyd perthynas iddo yn nhrychineb Aberfan. Ia, mae yna rhyw lonyddwch anghyffredin yn y llyfrgell wrth i'r lle ddygymod â cholli Stephen. Ia, newid ddaw o farwolaeth i farwolaeth i Fargoed. Pwy welaf yfory i roi y lle yn ei le?

Hanes Cwm Ni

7/6/18 Alun Tudor
Hanes Yr Annibynnwy'r yng Nghymru

5/7/18 Dave Hale
Effaith y pla ar bobl Cymru + dathlu diwedd y flwyddyn gyda Côr Afon Lwyd a Clwb Gwerin Dysgu Cymraeg Gwent

Clwb Rygbi Penallta
Ystrad Mynach CF82 7EP
7:00yh
Am ragor o fanylion:
helen.young@coleggwent.ac.uk
01495 333702

Eisiau dysgu mwy am hanes Cymru? Dewch i wrando. Croeso i bawb.
Addas ar gyfer siaradwyr CANOLRADD / UWCH / HYFEDREDD

Does dim eisiau dweud llawer am gerdd y mis yma, cerdd gan Mihangel Morgan sy'n fwy enwog fel nofelydd. Peidiwch â'i chymryd o ddifrif a chofiwch mai meicrodon yw'r enw iawn am *microwave*!

Ping

Popiodd

Y Parchedig

Penri

Pappington-Puw

Pepi

Y pwdl

Yn y potty-ping -

Ond

Pan aeth y potty

Ping-pinciti-ping-ping-ping

Roedd

Pepi

Y pwdl yn

.....Saws




cymryd o ddifrif : to take seriously

Y Parchedig : the Reverend

potty ping : microwave

Dyma'r atebion i'r posau ar dudalen 5. Sawl un gawsoch chi'n iawn?



Cyfle i 100 o Bobl Gymryd Camau i Weithio Gyda Phlant Ifanc

Mae Mudiad Meithrin yn gwahodd ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da sydd am hyfforddi yn rhad ac am ddim i weithio gyda phlant ifanc.

Mae Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol Mudiad Meithrin yn rhoi cyfle i 100 o bobl hyfforddi ar gyfer Lefel 3 Gofal Dysgu a Datblygiad Plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal rhwng Medi 2018 ac Awst 2019 gyda'r dyddiad cau am geisiadau ar y 1af o Fehefin eleni.

Meddai Harri Jones, Rheolwr Cenedlaethol Cam wrth Gam:

“Mae hwn yn gyfle gwych i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma a fydd yn golygu ar ddiwedd y cwrs y bydd ganddynt gymhwyster i weithio mewn lleoliadau gofal plant ac mewn ysgolion cynradd.”

Bydd angen i'r myfyrwyr llwyddiannus fod gyda phlant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar am 16 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol yn unig a mynychu cyfres o saith gweithdy yn ystod y flwyddyn. Mae modd i'r myfyrwyr gael eu lleoli mewn Cylch Meithrin, Meithrinfa Ddydd, neu Ysgol Gynradd.

Ymysg y swyddi fydd y myfyrwyr yn gallu eu gwneud ar ôl hyfforddi fydd ymarferydd crèche, cynorthwy-ydd mewn Cylch Meithrin, Meithrinfa, Clwb ar ôl Ysgol a Chynorthwy-ydd Dosbarth mewn Ysgol Gynradd. Byddant hefyd yn gallu gweithio fel arweinydd mewn Cylch Meithrin, Cylch Chwarae a Chlwb ar ôl Ysgol, neu fel rheolwr neu ddirprwy reolwr meithrinfa.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Mudiad Meithrin wedi hyfforddi dros 2,100 o ymarferwyr i allu gweithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

Un sydd ar fin cwblhau ei chwrs yw Alaw Smith o Gylch Meithrin Terrig, Treuddyn ger yr Wyddgrug:

Meddai Alaw:

“Dydw i ddim yn dod o gefndir gofal plant ond roedd yr hyfforddiant oedd yn cael ei gynnig trwy'r cwrs yn rhoi cyfle imi newid cyfeiriad. Roedd y ffaith bod y cwrs am ddim yn atyniad i rywun fel fi efo teulu ifanc. Dwi'n meddwl fod cynnal y cwrs drwy'r gweithle yn sicrhau ein bod yn cael digon o brofiad.”

Un arall sy'n cwblhau yn yr haf yw Enfys Evans, o Feithrinfa'r Enfys, Cross Inn, ger Llanon yng Ngheredigion.

Meddai Enfys: *“Wnes i ddewis dilyn y cwrs oherwydd lefel y gefnogaeth oedd ar gael a'r ffordd mae'r cwrs yn cael ei gynnal. Mae'r gweithdai yn rhoi cyfle i chi gwrdd â phobl eraill sy'n gwneud y cwrs gan rannu profiadau â nhw. Mae gweithio ar leoliad yn wych oherwydd rych chi'n cael cyfle i wneud gwaith ymarferol er mwyn gallu datblygu eich sgiliau.”*

Os hoffech wneud cais ar gyfer cael eich ystyried fel dysgwr ar gyfer y cwrs fydd yn dechrau ym mis Medi 2018 yna lawrlwythwch y ffurflen gais oddi ar wefan Mudiad Meithrin <http://www.meithrin.cymru/ffurflengais/> a'i dychwelyd atom cyn y 1af o Fehefin 2018.



Ffilifest - Hwyl i bawb yn y Castell

Mae diwrnod llawn hwyl gyda mynediad am ddim wedi'i drefnu yng Nghastell Caerffili ar ddydd Sadwrn Mehefin 9fed. Gŵyl flynyddol Menter Caerffili yw Ffilifest i ddathlu iaith a diwylliant Cymru ac fe fydd y digwyddiad yn cynnwys perfformiadau, adloniant, gweithgareddau, gweithdai, stondinau bwyd a diod a chyfle i grwydro'r castell. Eleni am y tro cyntaf, fe fydd ardal traeth newydd i blant gael chwarae yn y tywod hefyd!

Mae Menter Caerffili wedi gweithio yn agos gyda Cadw, grwpiau cymunedol a pherfformwyr i drefnu'r digwyddiad mewn lleoliad hollol unigryw. Mae cannoedd o blant o ysgolion lleol yn paratoi ac yn ymarfer i ddawnsio gwerin ar y prif lwyfan, sef arddangosfa dawnsio gwerin fwyaf y Sir. Mae'r ŵyl eleni yn parhau tan 17:00, gyda pherfformiadau gan fandiau a pherfformwyr Cymreig fel Martyn Geraint, Ragsy, Nantgarw, Mabli Tudur, John Nicholas, a mwy. Trefnwyd y rhaglen gerddorol mewn partneriaeth â'r Selar. Fe fydd stondinau nwyddau, amrywiaeth o fwyd a diod yn cynnwys carafán coctels a phabell cwrw a seidr, hefyd gweithgareddau a gweithdai addysgol amrywiol megis pabell celf a chrefft, ardal VR a gemau retro a hyn i gyd o fewn y Castell.

Dywedodd Morgan Roberts o Menter Caerffili ynglŷn â'r resymau dros gynnal yr ŵyl:

"Yn Ffilifest rydym ni'n croesawu bobl o bob oedran i ddod i fwynhau iaith a diwylliant Cymru mewn lleoliad ffantastig. Mae'r digwyddiad yn cynnig cyfleoedd i bobl i gysylltu â'r Gymraeg beth bynnag eu gallu. Dyn ni'n gyffrous iawn i weld Ffilifest yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn."

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'n prif noddwyr, sef Llywodraeth Cymru, Cyngor B.S.Caerffili, Dŵr Brecon Carreg a Chyngor Tref Caerffili.

CYNGOR TREF CAERFFILI

Gŵyl Flodau

Mehefin 22ain – 24ain

Mewn capeli, eglwysi, Canolfan y Twyn, Y Llyfrgell a Malcolm Uphill



Bydd yr arddangosfa flodau yng nghapel Bethel yn cynnwys gwaith Grŵp Arlunio Dydd Gwener



Y SELAR

9 Mehefin
2018

Castell
Caerffili

19:00

CHROMA
Mellt
Wigwam
Y Sybs

Tocynnau

£5

FFILIFFEST

Tocynnau trwy tocyn.cymru - 'GIG FFILIFFEST'



CYMRAG



mentercaerffili.cymru

